



Adroddiad Arolygu

Little Steps Childcare Centre Ltd

**Bro Tawe
Ffordd Yr Afon
Ystradgynlais
SA9 1BU**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg



Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

22/09/2021

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Little Steps Childcare Centre Ltd

Y math o ofal a ddarperir	Gofal Dydd Plant Gofal Dydd Llawn
Darparwr Cofrestredig	Little Steps Childcare Centre Limited
Lleoedd cofrestredig	61
Iaith y gwasanaeth	Saesneg
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	22 Ebrill 2021
A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?	Nac ydy
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Mae'r feithrinfa hon yn gweithio tuag at y 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Crynodeb

Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol ac ni wnaethom ystyried y themâu yn fanwl ar yr achlysur hwn.

Mae gan y plant lais cryf ac maent yn gyfathrebwyr hyderus iawn. Mae ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn ac maent wedi setlo ac yn hapus. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a staff y feithrinfa yn ysgogol ac mae'r plant yn cydweithio'n dda. Mae'r plant yn dod yn fwyfwy annibynnol drwy brofiadau chwarae a dysgu.

Mae staff y feithrinfa yn deall ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo diogelwch personol. Maent yn deall y polisi ymddygiad yn llawn ac yn rhoi strategaethau ymddygiad cadarnhaol cyson ar waith ar gyfer y plant. Mae staff y feithrinfa yn ymateb yn gyson ac yn ymgysylltu'n llawn â'r plant.

Mae amgylchedd y feithrinfa yn lân ac yn ddiogel. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa wedi rhoi gweithdrefnau ar waith er mwyn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Darperir ardal chwarae fawr dan do ac yn yr awyr agored i'r plant symud o gwmpas yn rhydd a mwynhau ystod o adnoddau addas ar gyfer oedran a chamau datblygu'r plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol ac yn rhagori ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Maent yn adolygu eu polisïau a gweithdrefnau yn rheolaidd, ac yn gosod disgwyliadau uchel i staff y feithrinfa. Mae diogelu yn flaenoriaeth uchel i'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa. Mae'r partneriaethau'n dda ar y cyfan.

Llesiant

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae gan y plant lais cryf ac maent yn gyfathrebwyr hyderus iawn. Maent yn mynegi eu hunain ar lafar ac ar ffurf ddeiriau. Er enghraifft, mae'r plant hŷn yn dweud wrth staff y feithrinfa pa fwyd y maent ei eisiau a pha fwyd nad ydynt yn ei hoffi. Mae'r plant iau yn dangos i staff y feithrinfa eu bod eisiau chwarae ag anifeiliaid fferm ac yn dewis eistedd mewn pabell yn yr awyr agored, gan edrych ar lyfrau. Mae'r plant yn gwneud eu penderfyniadau eu hunain. Maent yn ysgogi eu dysgu eu hunain drwy edrych am anifeiliaid ac adnoddau naturiol mewn hambyrddau gweithgaredd a chymryd troeon ar y llithren.

Mae gan y plant ymdeimlad cryf o berthyn, ac maent wedi setlo ac yn hapus. Roedd y plant wrth eu bodd yn dangos sticeri i ni yr oeddent wedi'u cael gan staff y feithrinfa. Mae'r plant yn defnyddio'r ardal awyr agored yn hyderus. Maent yn dal dwylo ac yn gweithio gyda'i gilydd i chwilio am bryfaid o dan flocciau pren ac yn cyffroi gan ddweud *"Look! They love crawling on my hand!"* (Edrycha! Maen nhw wrth eu boddau'n cropian ar fy llaw!). Mae'r plant yn teimlo bod eu hanghenion yn cael eu hystyried, ac yn teimlo'n gartrefol gyda staff y feithrinfa. Er enghraifft, cafodd y plant a oedd yn teimlo'n sâl eu cysuro a'u tawelu wrth gael maldod gan staff y feithrinfa. Roedd y plant a oedd eisiau eu teganau cysur wrth chwarae yn yr awyr agored yn gwybod y câi eu safbwyntiau eu parchu.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a staff y feithrinfa yn gyson ysgogol ac mae'r plant yn cydweithredu'n dda ac yn mynd ati i chwarae. Maent yn dewis chwarae yn yr awyr agored yn y gegin fwd ac yn chwarae'n rhydd â'r beics, treiciau ac yn ardal y coetir a'r ardaloedd cysgodol.

Mae'r plant yn dilyn y rheolau am rannu yn llwyddiannus. Gwrandawodd y plant ar staff y feithrinfa a wnaeth eu hatgoffa i rannu pinnau ysgrifennu a darnau o bapur.

Mae'r plant yn dod yn fwyfwy annibynnol drwy brofiadau chwarae a dysgu. Maent yn deall eu trefn feunyddiol o ran golchi eu dwylo ar ôl bod yn yr awyr agored a chyn bwyta eu byrbrydau.

Gofal a Datblygiad

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn

Mae staff y feithrinfa yn deall ac yn gweithredu polisiau a gweithdrefnau i hyrwyddo diogelwch personol. Maent yn dilyn asesiadau risg cadarn ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r gweithdrefnau. Mae staff y feithrinfa yn dilyn gweithdrefnau diogelu. Maent yn cadw llygad barcod ar y plant wrth fynd â nhw am dro yn yr ardal leol. Adeg casglu'r plant, dilynai'r holl staff weithdrefnau'r feithrinfa er mwyn cadw'r plant yn ddiogel, ac mae'r holl weithdrefnau cyfredol ar waith ac wedi'u cynnal ers yr arolygiad diwethaf. Cadarnhaodd staff y feithrinfa oedd wedi'u penodi yn ddiweddar eu bod wedi darllen y polisiau a gweithdrefnau cyn cychwyn yn eu rôl yn y feithrinfa.

Mae staff y feithrinfa yn deall y polisi ymddygiad yn llawn ac yn rhoi strategaethau ymddygiad cadarnhaol cyson ar waith ar gyfer y plant. Maent yn rheoli ymddygiadau'r plant drwy eu hannog i ryngweithio yn garedig ac yn llwyddo i dynnu eu sylw yn effeithiol pan maent eisiau'r un teganau neu adnoddau. Mae staff y feithrinfa yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r plant. Maent yn canmol y plant yn gyson. Er enghraifft, roeddent yn gwneud i'r plant deimlo eu bod yn bwysig, gan roi sticeri iddynt am wneud gwaith da. Mae staff y feithrinfa yn dangos cynhesrwydd tuag at y plant ac maent yn sensitif i anghenion y plant. Gwnaethant gofleidio'r plant a oedd yn teimlo'n sâl, ac roedd y plant yn teimlo'n llawer gwell o ganlyniad.

Mae staff y feithrinfa yn ymateb yn gyson ac yn ymgysylltu'n llawn â'r plant bob amser. Maent yn frwdfrydig wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau mae'r plant yn eu mwynhau ac yn datblygu geirfa Gymraeg a Saesneg y plant. Er enghraifft, gwnaeth staff y feithrinfa annog y plant i adnabod lliwiau ac enwau anifeiliaid a phryfaid yn y ddwy iaith. Mae'r staff yn annog y plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau ieithyddol. Gwnaeth y rhai sy'n gofalu am y plant iau eu canmol pan wnaeth y plant ailadrodd synau llythrennau a sŵn anifeiliaid. Llwyddodd staff y feithrinfa a oedd yn gweithio yn yr awyr agored gyda'r plant hŷn i gynnal eu diddordeb yn ystod amser stori wrth ddarllen llyfr am '*My friend bear*' (Fy ffrind yr arth).

Yr Amgylchedd

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn

Mae amgylchedd y feithrinfa yn ddiogel. Mae'r holl ardaloedd dan do ac yn yr awyr agored yn gwbl ddiogel gyda chloeon ar y giataiu, ac mae system ddiogelwch ar waith sy'n rhwystro'r plant rhag gadael y safle ac ni all personau heb awdurdod gael mynediad i'r lleoliad.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa wedi rhoi gweithdrefnau ar waith er mwyn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae ganddynt asesiadau risg cadarn ar gyfer pob ardal dan do ac yn yr awyr agored, ac wrth fynd â'r plant i'r ysgol a'u casglu oddi yno. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn lleihau risgiau croesheintio drwy sicrhau bod gweithdrefnau ar waith ar gyfer glanhau, golchi dwylo a gorsafoedd diheintio, sydd ar gael yn hawdd dan do ac yn yr awyr agored.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa wedi darparu ardal chwarae estynedig dan do er mwyn i'r plant symud yn rhydd ac archwilio. Maent wedi labelu adnoddau i'r plant â geiriau dwyieithog addas. Mae arddangosfeydd ar y waliau yn annog geirfa ddwyieithog ar gyfer misoedd y flwyddyn a lliwiau. Mae dathliad o waith celf annibynnol y plant i'w weld ar y waliau y tu mewn i'r feithrinfa. Mae'r plant yn defnyddio'r ardal chwarae yn yr awyr agored mor aml â phosibl ac mae'n estyniad i'r amgylchedd dysgu. Mae dosbarth newydd wedi cael ei adeiladu yn yr awyr agored ynghyd ag adnodd ysgol goedwig, sy'n parhau i gael ei ddatblygu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn ymestyn gwybodaeth a datblygiad y plant yn yr awyr agored drwy gynnig amrywiaeth eang o adnoddau sy'n herio ac sy'n ysgogi eu chwilfrydedd a'u diddordeb yn gyson.

Arwain a Rheoli

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol ac yn rhagori ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Maent yn wybodus iawn am eu cyfrifoldebau rheoliadol ac yn llywio datblygiad yn barhaus. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn adolygu a diweddarau eu polisiau unigol yn gyson ac maent yn eu rhoi ar waith yn llawn. Maent yn sicrhau bod staff presennol a newydd y feithrinfa yn darllen y polisiau a gweithdrefnau yn ystod cyfnod sefydlu cadarn. Maent yn gosod disgwyliadau uchel ac yn ysbrydoli'r timau yn effeithiol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn gofyn i'r staff ddarllen polisiau cyn cyfarfodydd staff ac maent yn trafod a phrofi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r polisiau a gweithdrefnau yn ystod y cyfarfodydd hyn, ac yn arbennig senarios diogelu posibl. Mae diogelu yn flaenoriaeth uchel i'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa nawr yn cofnodi enw'r person sydd wedi casglu pob plentyn ar y daflen cofrestru allan.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn ymgysylltu'n gyson ag Arolygiaeth Gofal Cymru ac yn cymryd cyfrifoldeb i roi gwybod am bob newid arwyddocaol yn brydlon. Mae'r sawl sy'n rhedeg y feithrinfa yn sicrhau yn gyson fod y staff yn cael eu defnyddio'n effeithiol er mwyn bodloni cymarebau staffio.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn cynnal cydberthynas dda iawn â'r rhieni ac asiantaethau ac awdurdodau allanol. Roedd staff y feithrinfa yn rhoi adborth cadarnhaol i'r rhieni wrth iddynt gasglu eu plant, ac roedd y rhieni yn fodlon ar yr adborth a roddwyd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn gweithio gyda chynllun peilot Llywodraeth Cymru i ddatblygu cwricwlwm newydd i'r feithrinfa. Mae cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol wedi cael ei benodi sy'n ystyried y fframwaith Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd.

Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

**Meysydd i'w gwella a chamau a gymerwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny.
Wedi ei gyflawni**

Mae'n rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau bod yr holl staff yn cadw llygad barcud ar y plant pan gânt eu casglu o'r feithrinfa.

Rheoliad 20 (1) (b)

**Meysydd i'w gwella a chamau a gymerwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny.
Heb ei gyflawni**

Dim

Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth

Dim

Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau

Dim

Dyddiad Cyhoeddi 29/11/2021